COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 163

**Amseru:** Arferol

**Teitl: Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Dyfed-Powys yn cymryd rhan mewn cynllun peilot cenedlaethol sy'n cael ei arwain gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Mae'r cynllun peilot wedi'i rannu'n ddau gam. Cychwynnodd Cam 1 ym mis Medi 2019. Mae'n caniatáu i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd adolygu cofnodion dalfa'r rhai sydd wedi'u nodi fel pobl sy'n agored i niwed er mwyn cael gwell mewnwelediad i'r holl ofal y mae carcharorion sy'n agored i niwed yn derbyn, gan ystyried eu taith gyfan drwy'r ddalfa.

Bydd cam 2 yn cychwyn ym mis Ionawr 2020. Bydd y cam hwn yn cynnwys rhai newidiadau i ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd â'r ddalfa. Fel rhan o'r cynllun peilot, gyda chaniatâd y carcharorion, bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn medru adolygu'r gweithdrefnau derbyn a rhyddhau o fewn y ddalfa. Bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn ateb cwestiynau penodol ar y gweithdrefnau hyn, gyda ffocws ar les carcharorion a sicrhau bod eu hawliau wedi'u cynnal.

**Argymhelliad:**
Bod Dyfed-Powys yn cymryd rhan yn ail gam y Cynllun Peilot Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** [signature] **Dyddiad: 29/01/2020**